

# Dysgu o'n camgymeriadau

*“Yna dywedodd Abram wrth Lot, ‘Peidied â bod cynnen rhyngom, ... oherwydd perthnasau ydym.’” (adn. 8)*

## Beth am ddarllen Genesis 13:1–12 ac yna myfyrio

A yw'n bosibl i fod yn gywir ac yn anghywir? Mae'n bosibl. Roedd Paul yn berffaith iawn wrth ddweud na ddylai Ioan Marc fod wedi eu gadael yn Pamffylia, ond yn anghywir wrth fynnu na ddylai gael cyfle arall. Roedd Paul a Barnabas yn anghywir wrth iddynt ymwahanu oherwydd yr achos hwn.

Beth ddylai'r ddau yma fod wedi ei wneud wrth iddynt gael eu cythruddo gan eu hanghytundeb? Mae'n siŵr y dylent fod wedi dweud yr hyn a ddywedodd Abram wrth Lot: “Na foed cynnen rhyngom, oherwydd brodyr ydym.” Mae'n debyg mai'r broblem yma oedd nid yn gymaint anghytundeb dros Ioan Marc, ond diffyg ysbryd Cristnogol. Gallent fod wedi gwahanu a dilyn eu llwybrau gwahanol heb fod yna gynnen.

Mae'n amhosibl atal pob cynnen sydd yn codi yn yr Eglwys, ond mae'n bosibl i gymryd camau sydd yn diogelu nad yw cynnen yn troi yn wahanu. Wrth i mi aeddfedu, wrth i fy mherthynas gyda'r bobl hynny yr wyf wedi gweithio gyda nhw gael ei hymestyn o bryd i'w gilydd, yr wyf wedi ceisio delio â'r tensiynau trwy gofio hyn: “Os wyt ti'n perthyn i Grist, a dwi'n perthyn i Grist, yna yr ydym yn perthyn i'n gilydd. Yr ydym yn berthnasau. Efallai fod yr achos dan sylw yn golygu ein bod yn mynd i gyfeiriadau gwahanol, ond nid wyf am ganiatáu i'r cyfeiriad gwahanol chwerwi ein heneidiau.” Bu i Paul hefyd sylwi, wrth iddo aeddfedu, na ddylid caniatáu i gynnen, sydd yn medru codi yn y galon fwyaf ysbrydol, arwain at wahanu. A dweud y gwir, bu i Paul ei hun gynghori'r Effesiaid mewn perthynas â'r achos yma. Yn ôl Effesiaid 4:26, dywedodd: “Peidiwch â gadael i'r haul fachlud ar eich digofaint.” Mae'n amlwg ei fod wedi dysgu o'i gamgymeriad. Dysgu o'n camgymeriadau yw un o'r pethau mwyaf bendigedig sydd yn deillio o aeddfedrydd ysbrydol.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 4:1–16; Heb. 12:15; 1 Ioan 3:12–15

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fu i Cain lofruddio Abel?
2. Sut ddylai Cain fod wedi ymateb?

## Gweddi

O Dad, rwy'n sylweddoli fod gwneud camgymeriadau yn rhan o fod yn berson dynol. Cynorthwya fi i ddysgu o'm camgymeriadau, er mwyn sylweddoli aeddfedrydd ysbrydol yn fy mywyd. Yn enw Iesu Grist. Amen.